



Yn galw ar grefftwyr! Gwnewch gais am Wobrau Etsy

Author: Sarah Hewett // Publication date: Dydd Llun, 4 Ebrill

Ymgeisiwch am Wobrau Etsy am gyfle i ennill gwobr arian parod gwerth £10,000, arddangos yng Ngŵyl Ddylunio Llundain, gwerthu trwy John Lewis a llawer iawn mwy!

Yn galw ar artistiaid, dylunwyr, crefftwyr, pobl sy'n creu a phawb sy'n llawn breuddwydion! Rydyn ni'n chwilio am werthwyr a chynnyrch gorau Etsy o bob rhan o'r DU ac Iwerddon ar gyfer Gwobrau Etsy 2016...

Am ennill arian a gwobrau bendigedig? (wir, pwy sydd ddim?) Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ymgeisio am Wobr Etsy i **gael cyfle i ennill grant busnes bach gwerth £10,000, cyfle arddangos eich gwaith yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, cyfle i werthu trwy John Lewis, hyfforddiant busnes gan yr Ymddiriedolaeth Ddylunio a llawer iawn mwy!**

Darllenwch ymlaen i gael rhagor o fanylion am y gwobrau bendigedig, categorïau'r Gwobrau a sut i wneud cais (yn ogystal â gwybodaeth am sut i gychwyn arni gydag Etsy i'r cyw-grefftwyr yn eich mysg sydd am wneud cais ond sydd heb agor eich siop eto!)

Mae Gwobrau Etsy yn dathlu ac yn cefnogi creadigrwydd ar draws y DU ac Iwerddon. **Caiff y buddugwyr eu dethol gan banel o arbenigwyr o'r diwydiant, gan gynnwys Anna Rigby, Pennaeth Prynu, Nwyddau Cartref John Lewis Pip McCormac, Cyfarwyddwraig Ffordd o Fyw Red Magazine Patricia Van den Akker, Cyfarwyddwraig yr Ymddiriedolaeth Ddylunio ac Erica Davies, Blogiwr The Edited.** Ry'n ni'n edrych ymlaen yn fawr at gael arddangos gwaith yr enillwyr yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain ym mis Medi 2016.

Rydyn ni wrth ein bodd i gael gweithio gyda sefydliadau creadigol hynod o Gymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon sy'n ein helpu ni i ledu'r gair! **Mae ein prif bartneriaid yn cynnwys: Gŵyl Ddylunio Llundain, Tent London, Y Cyngor Crefftau, Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio, Celfyddydau Cynhwysol Cyfoes, Craft Central, Crafty Fox Market, Craft Scotland, Creative Scotland, Emergents, Xpo North, Cyngor Celfyddydau Cymru, Helga Gelf, Craft NI, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Offset a Chyngor Dylunio a Chrefftiau Iwerddon.** Am restr!

Pwy gaiff wneud cais?

Ydych chi'n creu rhywbeth gwych? Yn gweithio yn y DU neu Iwerddon? Dros 18 oed? Os felly, mae'n debyg eich bod chi'n gymwys i wneud cais am Wobr Etsy!

Caiff gwerthwyr Etsy yn y DU ac Iwerddon eu gwobrwyo am eu gwaith yn y categorïau canlynol: **Y Cartref a Byw; Ffasiwn a Chyfwisgoedd; Plant a Babanod; Dawn Newydd Etsy (mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Ddylunio); y Seren Adwerthu (mewn partneriaeth â John Lewis); Dewis y Bobl (trwy bleidlais gyhoeddus); a'r gwobrau Rhanbarthol (crefftwyr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon).**

Bydd 21 o enillwyr i gyd, â gwobrau Aur, Arian AC Efydd ym mhob categori (ac eithrio Dewis y Bobl a'r 5 Gwobr Rhanbarthol).

Mae manylion y meini prawf ar gyfer pob categori ar gael trwy fynd i Etsyawards.com/uk, ond dyma rhai o'r pethau allweddol i'w hystyried:

- *Bydd eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf.*
- *Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol... Heb siop eto? Gallwch gychwyn arni ag 20 rhestriad am ddim, trwy nodi'r cod: ETSYAWARDSUKIRELAND at <http://etsy.me/1RfdMaf> (gwerthwyr newydd yn unig).*
- *Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy.*
- *Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi.*
- *Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016.*
- *Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016.*
- *Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016.*
- *Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon.*
- *Os ydych chi'n allgcontractio unrhyw ran o'ch proses cynhyrchu, rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi llenwi cais, a chael cymeradwyaeth i'w gweithgynhyrchwyr allanol gan ein tîm o Arbenigwyr ar Grefftwyr. Gallwch ddarllen rhagor am hyn yma [LINK TO: <https://www.etsy.com/help/article/4644>].*
- *Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol i'w harddangos yn sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.*
- *Caiff pob ymgeisydd eu hystyried am y gwobrau Rhanbarthol yn awtomatig (gwneuthurwr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon).*

Beth yw'r wobr?

Ble mae dechrau?! Mae'r gwobrau ar gyfer enillwyr y Gwobrau Etsy wedi cael eu teilwra i gynorthwyo busnesau bach creadigol, ac maent yn cynnwys:

- *1 x grant busnes bach gwerth £10,000.*
- *5 x grant busnes gwerth £2500.*
- *1 x cyfle i gael gwerthu cynnyrch yn John Lewis.*
- *1 x aelodaeth rad ac am ddim o Glwb Busnes yr Ymddiriedolaeth Ddylunio.*
- *Cyfle i arddangos gydag Etsy yn TENT London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain.*
- *Rhaglen o hyfforddiant wedi ei theilwra gan Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio.*
- *Sylw yn ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus Gwobrau Etsy*

Sut bydd y broses ddethol yn gweithio?

Caiff y 60 sy'n cyrraedd y rownd derfynol eu dethol gan banel arbenigol o feirniaid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o [John Lewis](#), [Red Magazine](#), [Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio](#) a [The Edited](#). Caiff y broses ddethol ar gyfer y gwobrau rhanbarthol ei chynorthwyo gan gyrrff creadigol o bob rhan o'r DU ac Iwerddon. Ac ar ôl hyn i gyd, caiff enillydd Gwobr Dewis y Bobl ei ddethol trwy bleidlais gyhoeddus.

Sut mae gwneud cais?

Ewch i Etsyawards.com/uk a llenwch y ffurflen gais fer ar lein. Mae hi mor syml â hynny!

Beth yw'r dyddiad cau?

Brysiwch! Bydd ceisiadau'n cau am ganol nos ar 28 Ebrill 2016. Mynnwch ragor o wybodaeth a gwnewch gais yma.

A oes angen siop Etsy arnaf i wneud cais?

Oes wir! Ond peidiwch â phoeni os nad oes siop gennych eto... Gallwch gychwyn arni gydag 20 rhestriad am ddim, trwy nodi'r cod: ETSYAWARDSUKIRELAND yma: <http://etsy.me/1RfdMaf> (gwerthwyr newydd yn unig).

A beth am [gadw llygad ar y blog yma](#) am awgrymiadau am ffyrdd o sefydlu eich siop Etsy? <https://blog.etsy.com/uk/2016/04/30/make-something-sell-it-on-etsy> ...Neu cewch fynd i

Ac i gloi...

Wedi eich ysbrydoli i werthu eich cynnyrch? Agorwch siop i fod yn gymwys ar gyfer Gwobrau Etsy! Gallwch gychwyn ag 20 rhestriad am ddim, trwy nodi'r cod: ETSYAWARDSUKIRELAND [here: http://etsy.me/1RfdMaf](http://etsy.me/1RfdMaf) (gwerthwyr newydd yn unig).

Oes ffrind creadigol gennych fyddai'n berffaith i'w enwebu am Wobr Etsy? Rhannwch yr hwy! â nhw! #etsyawards

Gyda diolch i'n partneriaid:



Y DU a Gweriniaeth Iwerddon yn unig, 18+. Cau am 23.59pm 28.4.16. [Mae yna delerau. http://etsyawards.com/uk](http://etsyawards.com/uk)